**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (108)**
**Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

**Y cwestiynau**

......................................

## Eitem 2

**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

**Y cwestiynau**

......................................

## Eitem 3

## Dadl ar Gyfuno'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

NDM2246 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ategu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus mwy integredig fel ag y nodwyd yn nogfen 'Creu'r Cysylltiadau' a ddarparwyd i'r Aelodau ar 19 Hydref 2004; ac

2. Yn croesawu'r camau i wella atebolrwydd democrataidd yng Nghymru sy'n deillio o'r newidiadau arfaethedig i'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

*Mae copïau electronig o 'Creu'r Cysylltiadau' ar gael drwy'r cyswllt isod:*

<http://www.cymruarlein.wales.gov.uk/fe/default.asp?n1=1&n2=5&n3=484>

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**
**(2), (9), (10) & (11)**
**(3), (4), (5), (6), (7), (8)**

**1. David Melding (Canol De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod yr angen am atebolrwydd democrataidd a gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau cyhoeddus.

2. Yn cadarnhau na ddylai'r gostyngiadau yn y costau y cyfeirir atynt yn 'Creu'r Cysylltiadau' gael eu gwneud ar draul darparu gwasanaethau cyhoeddus.

3. Yn gresynu diffyg ymynghori gan Lywodraeth y Cynulliad ar y newidiadau arfaethedig i'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

4. Yn cydnabod yr angen i adeiladu ar lwyddiant brandiau nodedig Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru wrth adolygu'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

5. Yn gwrthwynebu'r bwriad i ddod â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ben ac yn cymeradwyo ei statws presennol.

6. Yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn cymeradwyo ei statws presennol.

7. Yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i Gyngor Chwaraeon Cymru ac yn cymeradwyo ei statws presennol.

8. Yn cymeradwyo statws presennol Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac yn credu y dylai gadw'r cyfrifoldeb am reoli Tir Gofal**.**

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu popeth a rhoi'r canlynol yn ei le:

Yn gresynu at fethiant Llywodraeth y Cynulliad i ddiwygio’r cwangos ar sail rhesymeg glir ag agored, sydd wedi golygu bod penderfyniad a ddylai fod yn un poblogaidd wedi troi’n hynod ddadleuol.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn llinell 1, dileu 'ategu' a rhoi 'nodi' yn ei le

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i gyhoeddi cyfanswm y gost o ddod â'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad o dan reolaeth y Cynulliad.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i sicrhau bod cwmpas ac effeithiolrwydd yr archwiliadau Gwerth Gorau yn cael eu cynnal.

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i amlinellu wrth y pwyllgorau pwnc y broses a'r gweithdrefnau a fydd yn sicrhau na aberthir rôl lled-farnwrol y Cynulliad Cenedlaethol wrth ddod â swyddogaethau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad o dan ei reolaeth.

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i ymrwymo i sicrhau y caiff y Cynulliad cyfan benderfynu ar ddyfodol unrhyw Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod methiant llwyr cyfluniad y GIG o dan Lafur a'i fod yn dangos diffyg gweledigaeth strategol y Prif Weinidog, ei reolaeth druenus a'i ddiffyg crebwyll ariannol.

**9. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod y diwygiadau i gyngor y celfyddydau yn annoeth ac yn gresynu at y ffaith y bydd y diwygiadau arfaethedig yn creu cyngor a fydd yn llai galluog i gyflawni anghenion pobl a chymuned gelfyddydol Cymru.

**10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y cynlluniau ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn credu y bydd y penderfyniad hwn yn dadwneud y camau clodwiw sydd wedi’u cymryd yn y blynyddoedd diwethaf i hyrwyddo’r iaith a gwneud datblygiad yr iaith yn fater anwleidyddol.

**11. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Brif Weinidog Cymru i gyhoeddi dadansoddiad manwl o’r arbedion y mae’n disgwyl eu gwneud o ganlyniad i’r strategaeth 'Creu’r Cysylltiadau'.

**......................................**

## Eitem 4

**Dadl fer**

**NDM2245 William Graham (Dwyrain De Cymru):** Camddefnyddio Sylweddau - Methiant Llywodraeth Gydgysylltiedig

**.....................................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.....................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 25 Ionawr 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**